CYMDEITHAS TAI CLWYD

TAI CYSGODOL

Mae tai cysgodol yn darparu gwasanaethau cefnogol lefel isel i gynorthwyo pobl hŷn, dros 55 oed gan amlaf, i sicrhau eu bod yn cynnal eu hannibyniaeth a'u preifatrwydd mewn amgylchedd diogel a chyfeillgar.

Mewn rhai amgylchiadau gellir cynnig tai cysgodol i bobl anabl dan 55 oed, yn dibynnu ar eu hanghenion unigol.

Byddwn yn:

- Darparu amgylchedd diogel a chartrefol lle medrwch chi fyw mor annibynnol ag y bo modd, gyda'r fantais o gymorth a chefnogaeth broffesiynol.
- Creu ac yn meithrin amgylchedd lle bo trigolion yn cyd-fyw yn hapus ac yn teimlo'n gyffyrddus a diogel.
- Ymateb i alwadau brys ac yn ymchwilio i broblemau mae trigolion yn ein hysbysu amdanynt.
- Darparu cyswllt i wasanaeth Careline i chi, sef canolfan derbyn galwadau argyfwng sy'n gweithredu 24 awr y dydd, a fydd yn cysylltu gyda'r bobl berthnasol os oes angen cymorth arnoch chi.
- Ymgynghori gyda chi ynghylch unrhyw newidiadau a allai effeithio ar y gwasanaeth.
- Cadw'r adeiladau ac offer yn lân ac yn daclus, ac yn gofalu am y tiroedd amgylchynol hefyd.
- Sicrhau bod gwasanaeth Careline ar gael drwy gydol cyfnod y denantiaeth.
- Gofyn i chi wneud yn siwr bod eich system Careline yn gweithio, unwaith y mis.

Cynigir tai cysgodol lle bo'r cymorth yn cael ei reoli gan warden. Yn ychwanegol at y pwyntiau uchod byddwn yn:

- Cysylltu gyda chi bob diwrnod oni bai eich bod chi'n dweud wrthym ni nad ydych am i ni gysylltu â chi mor aml â hynny.
- Rhoi gwybodaeth i chi am ddigwyddiadau cymdeithasol, cyfleusterau a gwasanaethau sydd ar gael yn y cynllun tai cysgodol ac yn yr ardal gyfagos.
- Darparu cyngor ar sut i gael unrhyw wasanaethau cymorth neu ofal ychwanegol a all fod arnoch eu hangen.
- Cytuno ar gynllun cymorth a chefnogaeth cynhwysfawr gyda chi, wedi'i deilwra i'ch anghenion unigol, a fydd yn cael ei adolygu yn flynyddol/bob chwe mis.
- Eich hysbysu chi pan fo staff wrth gefn ar ddyletswydd. Fodd bynnag, mewn achosion lle na ddefnyddir staff wrth gefn byddwn yn sicrhau bod cynrychiolydd o Gymdeithas Tai Clwyd yn eich ffonio chi bob dydd.
- Sicrhau bod y gwasanaeth Careline a'r gwasanaeth Warden ar gael drwy gydol y denantiaeth.

Nid yw'r warden yn gyfrifol am yr isod:

- Casglu pensiwn, presgripsiynau neu nwyddau siopa.
- Gofal nyrsio, coginio, golchi dillad a glanhau'r eiddo.
- Rhoi meddyginiaeth.
- Gofalu am eiddo personol neu arian trigolion.

Ond fe wnawn ni gysylltu gyda gwasanaethau eraill a all gynorthwyo gyda'r anghenion hyn, os oes angen.

Os ydych angen y ddogfen hon mewn fformat gwahanol e.e. ar dâp, mewn Braille, cysylltwch â ni.

54 Stryd y Dyffryn
DINBYCH
Sir Ddinbych
LL16 3BW

☎0345 230 3140
🖷 0345 230 3145
www.taiclwyd.com
taiclwyd@taiclwyd.com

Uned 8, Gweithdai Penllyn
Heol Aran
Y Bala, Gwynedd
LL23 7SP